

CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH:



Llan / Photos: Alan Barnes and David Wheeler

BRITH Y GORS

Eurodryas aurinia

Disgrifiad / Ecolog

Glöyn byw trawiadol canolig ei faint yw hwn sy'n byw'n bennaf ar dir gwlyb. Mae'n brin yn Ewrop ac mae ei niferoedd yn dirywio'n gyflym yn y Deyrnas Gyfunol. Yng Nghymru mae gloynnod yn eu llawn dwf i'w gweld o ganol Mai hyd at ddiwedd Mehefin a byddant yn dodwy wyau ar blanhigyn sy'n dwyn yr enw tamaid y cythraul y mae iddo flodau lliw leilac sy'n tyfu ar laswelltir corsiog. Gelwir y math yma o gynefin yn borfa rhos yn lleol ac fe'i cynhelir drwy bori ysgafn gan wartheg neu ferlod. Mae ei lindys yn byw mewn gwe sidanaidd ac fe'u gwelir yn bwyta dail tamaid y cythraul ddiwedd yr Haf/dechrau'r Hydref. Ar ôl gaeafu dros y Gaeaf mewn tuswau o lystyfiant, daw'r lindys allan ddiwedd mis Ebrill. Mae brith y gors yn byw mewn grwpiau o boblogaethau a elwir yn fetaboblogaethau.


Dosbarthiad yng Ngheredigion

Yng Nghymru, mae niferoedd y glöyn byw'n dirywio hyd yn oed yn y llefydd lle'r arferai fod yn gryf yn y de a'r de orllewin. Rhwng 1990 a 2006 cofnodwyd y rhywogaeth hon mewn 24 o lefydd yng Ngheredigion. O ystyried y newidiadau ymhlith cynefinoedd a phrinder cofnodion diweddar mae'n debygol bod 3 o'r poblogaethau hyn wedi diflannu. Mae'r poblogaethau sy'n weddill yn fach gan mwyaf a dim ond ym mhump o'r safleoedd y mae niferoedd sylweddol o loynnod byw. Mae data arolygon yn awgrymu mai Gwarchodfa Natur Genedlaethol Rhos Llaur Cwrt yw safle allweddol y Sir.

Ffactorau sy'n cyfrannu at y dirywiad yng Ngheredigion

- Colli cynefinoedd addas oherwydd draenio tir at ddibenion amaeth, coedwigaeth neu ddatblygiadau eraill yw'r prif resymau dros ddirywiad y glöyn byw yn y sir. Mae colli'r cynefinoedd wedi gwasgaru'r metaboblogaethau, gan adael nythfeydd ynysig sy'n fregus iawn.
- Mae porfeydd rhos wedi eu rheoli'n amhriodol a bu hyn yn andwyol iawn. Mae rhai safleoedd wedi eu pori'n ormodol ac

SPECIES ACTION PLAN:



MARSH FRITILLARY

Eurodryas aurinia

Description / Ecology

This striking medium-sized butterfly is mainly associated with wetland and is rare in Europe and rapidly declining in the UK. In Wales, adult butterflies are on the wing from mid May until late June and lay eggs on the lilac-flowered devil's bit scabious plant growing in areas of marshy grassland. This type of habitat is known locally as rhos pasture and is maintained by light grazing with cattle or ponies. Caterpillars live communally in silken webs and can be seen feeding on scabious leaves during late summer/early autumn. After hibernating over winter low down in tussocks of vegetation, the caterpillars emerge in the spring and feed before pupating in late April. The marsh fritillary occurs in groups of populations known as metapopulations.

Distribution in Ceredigion

In Wales, the butterfly is declining even in the traditional strongholds of the south and south west. Between 1990 and 2006 the species was recorded from 24 locations in Ceredigion. Changes to habitat and lack of recent records suggest that 3 of these populations are probably extinct. The surviving populations are mostly small and only 5 sites support significant numbers of butterflies. Survey data indicate that Rhos Llaur Cwrt National Nature Reserve is the key site in the County.

Factors contributing to decline in Ceredigion

- Loss of suitable habitat due to drainage for agriculture, forestry or other development has been the main reason for the decline of the butterfly in the county. Habitat loss has fragmented metapopulations, leaving isolated colonies that are very vulnerable.
- Inappropriate management of rhos pasture has been detrimental. Some sites have been under or over grazed which has destroyed the mixture of short turf and tussocky vegetation required by the

mae rhai heb eu pori'n ddigonol ac mae hyn wedi chwalu'r cymysgedd o dyweirch byr a llystyfiant twmpathog y mae eu hangen ar Frith y Gors. Bu cymaint o bori gan ddefaid nes i damaid y cythraul ddirywio neu ddiplannu.

Beth sy'n digwydd yn lleol?

- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru'n rheoli 3 o boblogaethau ar eu gwarchodfeydd natur.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n (CCGC) ceisio cynyddu poblogaeth y gloynnod byw a chynefin addas yn Rhos Llaur Cwrt.
- Caiff 8 o boblogaethau eu rheoli dan gytundebau rheoli gyda CCGC ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).
- Caiff ffermydd porfeydd rhos eu rheoli mewn modd cydnaws dan gynllun amaethyddol amgylcheddol Tir Gofal.
- Monitro'r poblogaethau'n flynyddol ar 5 safle.
- Arweiniodd rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer ffermio dwys ar dir lled naturiol at ddarganfod a diogelu safle Brithod y Gors.

Targedau

- Arolygu'r holl boblogaethau hysbys yn flynyddol a chael rhagor o ddata am boblogaeth a dosbarthiad.
- Rheoli'r safleoedd lle mae poblogaethau wedi eu cofnodi ers 2000 yn briodol er mwyn cynnal y gwe lar faol yn flynyddol.
- Atgyfnerthu'r metaboblogaethau trwy gynyddu'r cynefinoedd yn ardal pob metaboblogaeth.
- Cynyddu maint a dosbarthiad y cynefinoedd addas yng Ngheredigion.

Beth allwch chi ei wneud i helpu

- Gan eich bod yn berchennog tir efallai y cewch chi gyfle i reoli peth o'ch tir er lles Brith y Gors. Cysylltwch â CCGC i gael cyngor (Cyswllt: David Wheeler, d.wheeler@ccw.gov.uk 01545 590434).
- Gwylwch am loynnod byw neu lindys Brith y Gors a rhowch wybod i Ddiogelu Gloynnod Byw/Butterfly Conservation wales@butterfly-conservation.org 0870 7706153) neu gofnodydd gloynnod byw'r sir, Lin Gander lingander@strandings.demon.co.uk
- Helpwch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru i gyfrif gwe larfaol (Medi) neu i reoli cadwraeth yn eu gwarchodfeydd natur. (Cyswllt I.wilberforce@welshwildlife.org 01239 621212)

Rhagor o wybodaeth

- Tabl camau gweithredu (rhan 2 cynllun gweithredu Brith y Gors) i weld manylion y camau gweithredu lleol. Gofyn i'r Swyddog Bioamrywiaeth am fanylion.
- Cynllun Gweithredu Brith y Gors y Deyrnas Gyfunol (ar gael ar www.ukbap.org.uk)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA biodiversity@ceredigion.gov.uk 01545 570881
- Diogelu Gloynnod Byw/Butterfly Conservation, 10 Calvert Terrace, Abertawe SA1 6AR. 0870 7706153 wales@butterfly-conservation.org

Partner arweiniol: CCGC, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EE, d.wheeler@ccw.gov.uk 0845 1306229

Marsh Fritillary. Grazing by sheep has resulted in the reduction or extinction of devils bit scabious.

What is being done locally

- Wildlife Trust for South and West Wales manage three populations on their nature reserves.
- CCW are working to expand the butterfly population and suitable habitat at Rhos Llaur Cwrt.
- Eight populations are managed through management agreements with CCW on sites of Special Scientific Interest (SSSIs).
- Rhos pasture sites farms under the Tir Gofal agri-environment scheme are managed sympathetically.
- Annual monitoring of populations takes place on 5 sites.
- Environmental Impact Assessment (EIA) regulations for agri-intensification on semi-natural land have led to the discovery and protection of a Marsh Fritillary site.

Targets

- Survey all known populations annually and obtain further population and distribution data.
- Ensure through appropriate management that all sites where populations have been recorded since 2000 continue to support larval webs annually.
- Consolidate metapopulations by increasing available habitat within each metapopulation area.
- Increase the total amount and distribution of suitable habitat in Ceredigion.

What you can do to help

- As a land owner/manager you may have opportunities to manage some of your land for Marsh Fritillaries. Please contact CCW for advice (Contact David Wheeler, d.wheeler@ccw.gov.uk 01545 590434).
- Look out for Marsh Fritillary butterflies or caterpillars and pass records on to Butterfly Conservation wales@butterfly-conservation.org 0870 7706153) or the county butterfly recorder, Lin Gander lingander@strandings.demon.co.uk
- Help WildlifeTrust South and West Wales with larval web counts (September) or conservation management on their nature reserves. (Contact I.wilberforce@welshwildlife.org 01239 621212)

Further information

- Actions table (Marsh fritillary action plan part 2) for details of local action. Ask Biodiversity Officer for details.
- UK Marsh Fritillary Action Plan (available on www.ukbap.org.uk)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on www.ceredigion.gov.uk)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA biodiversity@ceredigion.gov.uk 01545 570881
- Butterfly Conservation, 10 Calvert Terrace, Swansea SA1 6AR. 0870 7706153 wales@butterfly-conservation.org

Lead partner: Countryside Council for Wales, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EE, d.wheeler@ccw.gov.uk 0845 1306229